# DINESYDD

## Hydref

PAPUR CYMRAEG
CAERDYDD A'R CYLCH

1985

RHIF 119


# MARCIAU LLAWN

CANMOLWYD gwaith ysgolion cynradd Gymraeg Caerdydd gan Arolygwyr ei Mawrhydi. Mewn adroddiad sy'n disgrifio lledaeniad a thwf yr ysgolion Cymraeg, dywed yr Arolygwyr bod yr darlun yn "galonogol iawn ar lawer cyfrif".

Bwrdwn yr Adroddiad, a seilir ar ymweliadau â'r ysgolion yn ystod tymor yr haf 1984, yw bod pob un o'r ysgolion "yn llwyddo i greu awyrgylch lle mae'r Gymraeg yn amlwg ac yn iaith lywodraethol y gymdeithas ac yn gyfrwng dysgu".

"Yr hyn sy'n neilltuol", medd yr Arolygwyr, "yw apêl gynyddol yr ysgolion Cymraeg i ddisgyblion o gartrefi gwahanol iawn eu cefndir ieithyddol". Fel y dengys y tabl isod, mae mwyafrif disgyblion pob un o'r ysgolion bellach o gartrefi di-Gymraeg, neu gartrefi lle mae'r Saesneg yn iaith lywodraethol.

| | |
|---|---|
| Coed y Gof | 71% |
| Melin Gruffydd | 65% |
| Y Wern | 58% |
| Bro Eirwg | 75% |

Mae'r adroddiad yn delio â saith agwedd o waith yr ysgolion. "At ei gilydd", dywedir, "y mae Trefniadaeth yr ysgolion yn dderbyniol", a chroesewir y cysylltiadau a sefydlwyd gyda'r ysgolion Meithrin.

Mae Adnoddau Staffio'r ysgolion yn "addas", ond dywedir bod "modd gwella" ar Gynlluniau Gwaith. Noda'r adran ar Gymdeithas, Cefndir ac Amgylchedd yr Addysgu/Dysgu natur clos y berthynas rhwng yr ysgolion â'r rhieni a'r "cymorth eithriadol" y mae'r ysgolion yn derbyn ganddynt. Adlewyrchir maint y gefnogaeth hon gan nifer y teclynnau, megis cyfrifiaduron, setiau teledu, camerau, offer fideo ac ati.

Cafwyd canmoliaeth hefyd i'r ymdrechion a wneir i ddarparu "sefyllfaoedd trefnus a chefndir dymunol a chwaethus" ar gyfer dysgu, er i'r arolygwyr ychwanegu mai "prin iawn yw gwaith y dsigyblion" mewn rhai dosbarthiadau, ac mae "galeriau i arddangos gwaith athrawon yw'r muriau ar brydiau".

Ceir canmoliaeth gyffredinol i Ansawdd a Natur Dysgu Cymraeg yn yr adrannau Plant-bach a Iau. Er lle mae darllen yn y cwestiwn dywed yr adroddiad fod disgyblion mewn rhai dosbarthiadau yn dueddol o ddewis llyfrau darllen "heb fawr o arweiniad o du'r athrawon; nid oes unrhyw fath o raglen ddarllen ar gyfer rhai o'r disgyblion hyn ac nid oes tystiolaeth y gwneir ymgais i asesu a chofnodi eu cynnydd mewn darllen 'chwaith".

Mae Natur ac Ansawdd Addysgu Saesneg hefyd yn dderbyniol er mai ychydig a wneir i roi dimensiwn Cymreig i'r gwaith Saesneg. "Mae'n drueni", medd yr Arolygwyr, "y collir cyfle i greu ethos yn y gwersi Saesneg sy'n ategu amcanion Cymraeg yr ysgolion".

Does dim amheuaeth, fodd bynnag nad yw'r Arolygwyr yn fodlon â gwaith y bedair ysgol. Mae'r adroddiad yn gorffen fel hyn: "Er mor amrywiol yw cefndir y disgyblion, gellir dweud fod yr ysgolion yn llwyddo i raddau pell iawn i sefydlu ac ehangu gafael mwyafrif llethol y disgyblion hyn ar ddwy iaith ac yn eu galluogi i ddefnyddio'r rheini yn declynnau cyfathrebu effeithiol. Mewn canlyniad mae'r disgyblion yn dechrau adnabod a gwerthfawrogi eu gwlad eu hunain a bydoedd eu dau ddiwylliant."

Gellir cael copiau o'r adroddiad oddi wrth Awdurdod Addysg De Morgannwg neu oddi wrth yr Adran Addysg, Y Swyddfa Gymreig, Parc Cathays, Caerdydd, CF1 3NQ.

MAE'R DINESYDD yn unigryw ym myd papurau bro. Oherwydd maint a natur gwasgaredig ein "bro" ni, nid yw'n ymarferol i werthu'r Dinesydd o ddrws i ddrws ac yn siop y pentre fel y gwneir yng ngweddill Cymru. Rhaid felly inni ddibynnu ar garedigrwydd sefydliadau Cymraeg y briffddinas - y capeli, y cyfryngau, y siopau Cymraeg, yr ysgolion ac ati.

Roedd penderfyniad tri o brifathrawon ein hysgolion cynradd y mis diwethaf- Gareth Evans, Melin Gruffydd; Elfan Jones, Bro Eirwg; Glesni Whettleton, Y Wern - i beidio â dosbarthu'r Dinesydd ymhlith y plant yn ergyd ddifrifol i'r Dinesydd.

Er mai dim ond un o'r tri oedd yn ddigon cwrtais i'n ffonio er mwyn dweud nad oedd yn mynd i ddosbarthu'r copiau a gafodd (ac fe fethodd yntau hyd yn oed a chadw at ei addewid i'w dychwelyd) gwn pawb, mae'n siwr, beth oedd asgwrn y gynnen - darn mewn colofn yn dwyn yr enw "Crafu Cefn" ynghylch y ffaith i Gareth Evans benderfynu dynnu ei blant o Ysgol Glantaf.

Er gwaetha'r ffaith bod y ffeithiau yn gywir, gallwn ddeall nad oedd y stori wrth fodd Mr.Evans. Yr hyn na allwn ddeall, na derbyn chwaith, yw iddo yntau a dau brifathro arall nad oedd a wnelo'r stori dim â nhw, wrthod dosbarthu'r Dinesydd.

Pe bai pawb nad oedd yn hoffi pob stori a gyhoeddwyd yn y Dinesydd yn gwrthod ei ddosbarthu byddai neb yn ei ddarllen. Yr ateb i'r sawl sy'n cael ei gythruddo gan rywbeth a gyhoeddir gennym yw i ateb yn y rhifyn nesaf - a gwahoddwn Gareth Evans i esbonio beth sydd o'i le yn ei farn ef ar curriculum chweched dosbarth Glantaf, ac fe'i gwahoddwn ef a'r ddau brifathro arall i gyfiawnhau peidio â dosbarthu'r Dinesydd yn yr ysgolion lle maent yn gweithio. Edrychwn ymlaen at dderbyn eu hatebion.

DIM COWNTERI CYMRAEG

MAE CELL CAERDYDD o Gymdeithas yr Iaith Gymraeg wedi cael gwybod gan swyddogion Swyddfa'r Post nad yw'r syniad o agor "Cownteri Cymraeg", i ddarparu gwasanaeth cyflawn ddwyieithog, yn gyfreithlon. Dywedwyd mewn llythyr at swyddogion y Gell na allai Swyddfa'r Post "wahaniaethu'n gyfreithiol yn erbyn y di-Gymraeg mor bell ag y mae recriwtio yn y cwestiwn. Mae'r farn hon wedi'i chadarnahu gan ein pencadlys yn Llunadin". Dywedwyd nad oedd gan Swyddfa'r Post unrhyw wrthwynebiad i'r synaid, ond nad oedd modd ei weithredu fel mae'r gyfraith ar hyn o bryd.

Dywedodd Cadeirydd Cell Caerdydd, Steffan Webb, i'r Gymdeithas resynu at y ffaith bod Swyddfa'r Poast yn cael ei rwystro rhag ddarparu gwasanaeth cyflawn ddwyieithog gan y gyfraith , ac at y ffaith mai o Lundain y daeth y cyngor a arweiniodd at y penderfyniad hwn. Galwodd ar Swyddfa'r Post i "ddatgan cefnogaeth i'r ymgyrch am Ddeddf Iaith newydd a fyddai'n amddiffyn y Gymraeg. Golyga'r penderfyniad nad oes gan y Gymraeg statws cyfreithiol o gwbl yng ngolwg y Prif-Bostfeistr."

Bydd Cell Caerdydd yn paratoi cynnig ar y mater i'w gyflwyno i Gyfarfod Cyffredinol y Gymdeithas a gynhelir yn Aberystwyth ar Hydref 11 a 12.

> CYMDEITHAS YR IAITH GYMRAEG
>
> CYNHADLEDD GENEDLAETHOL
>
> Dyfodol Darlledu Cymreig
>
> Theatr Chapter Caerdydd
> Dydd Sadwrn 2 Tachwedd 1985

DYLID ANFON unrhyw gyfraniadau at rifyn Tachwedd at: Shân Emlyn, 3 Llandennis Avenue, Cyncoed, Caerdydd, CF5 6JD erbyn HYDREF 17.

DIOLCH AM gymorth Cymdeithas Celfyddydau De Ddwyrain Cymru a'r Swyddfa Gymreig wrth baratoi'r Dinesydd.

# Y CALENDR

DYLID ANFON unrhyw gyfraniadau at Galendr Y Dinesydd at:
Lynn Jones    Ffon: 562816

HYDREF

6 - Y Twr Trafoli
Clwb Ifor Bach 8.00
Noson o groeso.

7 - Merched y Wawr
Festri Capel Minny Street
'Morgannwg yn y ddeunawfed ganrif' - Conway Davies.

9 - Clwb Ifor Bach
Noson Lydewig gyda Padrig Sicard. Crempogau ar werth.

10 - Merched y Wawr
Cangen y Garth
8.00 Neuadd Bentre Pentyrch
Marc Phillips yn siarad am ei waith gyda phobl ifanc.

12 - Noson o gaws a gwin
Trewallter Fawr, 8.00.
Tocynnau £2.50 - yr elw at Ysgol Feithrin Clawdd Coch.

14 - Cymry'r Eglwys Newydd
Festri Capel Bethel, Penlline Rd., Yr Eglwys Newydd. 7.30.
Yng ngofal y llywydd - Mrs.Lyn Osborne.

16 - Cymdeithas Minny St.
"Winter's Tale" yn Theatr y Sherman

19 - Bore Coffi
Capel Ebenezer, Heol Siarl
10.00 - 2.00
Yr elw at gymdeithas Hyder Cymdeithas De Morgannwg at blant dan anfantais. Bydd cynnyrch crefft a stondin deisennod. Croeso i bawb.

20 - Neuadd Dewi Sant
Teulu Dyn
Noson o ddathlu gyda rhai o sêr amlycaf Cymru, a'r elw'n mynd at newynog y Trydydd Byd.

20 - Y Twr Trafoli
Clwb Ifor Bach 8.00
Masnachu â'r trydydd byd.

21 - Cymdeithas Wyddonol Caerdydd
Clwb Ifor Bach 8.00
"Byd y Baban Cyfoes"
Dr.Dewi Evans, Ysbyty Treforus

25 - Canolfan yr Urdd
Theatr Bara Caws
Paradwys Ffwl

30 - Theatr Sherman
"Bedlam" - Cwmni Hwyl a Fflag yn cyflwyno drama lwyfan gyntaf eu cyfarwyddwr Gruffydd Jones.

30 - Cylch Cinio'r Barri
Moc Rogers

31 - Chapter
"Blodeuwedd" - Teyrnged cwmni theatr Theatrig i Saunders Lewis.

TACHWEDD

1 - Cymrodorion Caerdydd
Festri Minny St. 7.15
Rhaglen yng ngofal y Parch. Eifion Powell. Cadeirydd: Y Parch.Raymond Williams.

3 - Y Twr Trafoli
Clwb Ifor Bach 8.00
Trip i Drefeca
Manylion gan Sian: 397901.

6 - Cymdeithas Minny Street
Y Dr.Glyn Jones

10 - Capel Derwen Deg, Llysfaen
Oedfa Anenwadol 4.00
Y Parch.Dafydd Owen

11 - Cymdeithas Wyddonol Caerdydd
Arena, Theatr y Sherman 8.00
"Ar y ffiniau"
Yr Athro Robin Williams
Coleg y Brifysgol, Caerdydd.

11 - Merched y Wawr
Festri Capel Minny Street
Yoga - Valmai Evans

17 - Y Twr Trafoli
Clwb Ifor Bach 8.00
"Ffydd Mewn Gwyddoniaeth"

20 - Cymdeithas Minny Street
Cymdeithas Tabernacl yn ymweld



# ARGYMHELLION ADDYSG

MAE GALW am bump ysgol gynradd Gymraeg newydd ac ysgol gyfun newydd y tu allan i Gaerdydd yn ôl Cymdeithas yr Iaith Gymraeg. Mewn adroddiad a gyflwynir i awdurdod Addysg De Morgannwg y mis hwn, mae Cell Caerdydd o'r Gymdeithas yn galw am sefydlu dwy ysgol gynradd - yn Nhreganna a Dinas Powys neu Wenfo - ym mis Medi 1986, a thair ysgol arall, yn Llanilltud Fawr, Y Rhath a Rhiwbeina, o fewn tair blynedd.

Honnir bod Glantaf yn rhy fach i dderbyn y plant o fewn dalgylch yr ysgol sy'n awr yn derbyn eu haddysg cynradd trwy gyfrwng y Gymraeg a geilw am sefydlu ysgol gyfun newydd ym Mro Morgannwg.

Geilw'r adroddiad ar i'r Cyngor Sir dderbyn sawl egwyddor yn sail i bolisi iaith newydd:

* Y dylai addysg Gymraeg fod ar gael o fewn cyrraedd rhesymol i bob plentyn sy'n dymuno hynny.
* Dylai'r Awdurdod Addysg gynllunio ymlaen llaw ar gyfer addysg Gymraeg.
* Bod lleiafswm o oriau Cymraeg i'w dysgu ym mhob ysgol gynradd.
* Bod gwersi Cymraeg ym mhob ysgol uwchradd.
* Bod ysgol feithrin ym mhob ysgol gynradd Gymraeg
* Bod adnoddau digonol ar gael i ddarparu addysg gyflawn Gymraeg.

Trafodir yr adroddiad mewn cynhadledd arbennig ym mhrif adeilad Addysg Coleg y Brifysgol ar 16 Tachwedd. Cyflwynir yr adroddiad i'r gynhadledd gan Gwilym Roberts, ac yna bydd aelodau'r panel - Emyr Currie-Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Addysg; Malcolm Thomas, Prifathro Glantaf; Michael Jones, Cadeirydd Rhieni Dros Addysg Gymraeg yn Ne Morgannwg; ac Owen John Thomas, Dirprwy Brifathro Ysgol Gynradd Gladstone - o dan gadeiryddiaeth Kevin Cambell, Adran Efrydiau Allanol Coleg y Brifysgol, Caerdydd, yn ymateb i gwestiynau o'r llawr.

# TECELA

gan Meurwyn Williams

WEDI DAU ddiwrnod o bwyso a mesur daeth B.V.Davies at ddrws yr Eglwys Gadeiriol a chyhoeddi, yn Saesneg, mai esgob etholedig Llandaf oedd yr Hybarch Roy Davies, Archddiacon Caerfyrddin. Holodd un o ficeriaid yr eglwys Gadeiriol a oeddwn i yn ei adnabod, ac fe gefais y pleser, fel ymneilltiwr, o ddweud fy mod.

Daw esgob etholedig Llandaf o Langennech yn wreiddiol. Bu'n gwasanaethu yn esgobaeth Tŷ Ddewi, ym mhlwyfi Sant Paul Llanelli, Aberystwyth a Llanafan. Wedyn aeth i Benarth i fod yn ysgrifennydd y Pwyllgor Cenhadu ac Undeb Eglwysig, cyn mynd yn Ficer Eglwys Dewi Sant, Caerfyrddin, ac yna yn Archddiacon Caerfyrddin gan ofalu am blwyfi Llanegwad a Llanfynydd.

Yn ystod y ddau ddiwrnod rheini pan fu'r Coleg Etholiadol yn pwyso a mesur, roedd rhai ohonom ninnau yn dyfalu pa fath o berson ddylai gael ei ethol. Bugail medd un, gweinyddwr medd un arall, Cymro meddwn innau'n dawel, a gwerinwr. Ac ym mherson Roy Davies daeth y cyfan yn un. Fe ddisgrifiais ef fel un all fynd lan sha'r Rhondda a dweud wrth y plwyfolion, "Bachan, wy'n falch i'ch gweld chi". Ac ni chafwyd esgob allai siarad felna yn yr esgobaeth ers dyddiau Timothy Rees meddai rhai. Ac mae rhyw syniad gen i y bydd Roy Davies yn fwy cartrefol mewn plwyfi felly nag yn dal gwydr sieri yn Llys Esgob, Llandaf.

Falle mai dyna pam fod rhai yn synnu mai fe a etholwyd yn hytrach nag un neu ddau o eglwyswyr mwy soffistigedig y gallwn ei enwi. Ond i mi dyna sydd yn fendigedig ynglŷn â'r apwyntiad, daeth un arall i'r fainc sydd yn agos-at-ddyn. Ac yn ddigon rhyfedd dyma'r trydydd esgob nawr i fod a chysylltiad â Chaerdydd. George Tŷ Ddewi, Cledan Bangor, ac yn awr Roy Landav. (Ys gwn i a fydd e'n newid hynny!)

Mae'r fainc bellach yn cymeryd arni wedd ddiddorol iawn. Mae pob esgob heblaw'r Archesgob, bellach yn Gymro Cymraeg ac mae nhw yn dod a gwahanol ddoniau i'r fainc. Rhai yn fugeiliaid, rhai yn athrawon, rhai yn bregethwyr, rhai yn weinyddwyr. Ond yn meddwl yn y Gymraeg, ac mae hynny'n beth da. Bydd ein cyfeillion yn eglwys Dewi Sant wrth eu bodd dwi'n siwr; nawr bydd eu hesgob yn gallu rhoi bedydd Esgob, Gweinyddu'r Cymun a Phregethu yn Gymraeg. Ond yn bwysicach na hynny, mae Roy Davies yn gwybod pa mor bwysig yw meithrin perthynas dda ag enwadau ac eglwysi eraill, ac mai nid trwy eu llyncu y mae hynny'n digwydd, ond trwy garu'n gilydd yn frawdol. Felly gall holl Gymry Cymraeg Caerdydd ymfalchio yn nhenant newydd Llys Esgob, a Duw a'n helpo o gwmpas Mawrth y cyntaf y flwyddyn nesaf!

Caiff ei gysegru'n esgob yn Eglwys Gwynllyw, Casnewydd ar Dachwedd y cyntaf a'i gadeirio yn Llandaf ar ddyddiad sydd i'w gyhoeddi eto. Croeso iddo i'n plith, a sylwch mai hen lanc yw e!

# TEULU DYN

MAE NOS SUL 20 Hydref yn Neuadd Dewi Sant yn addo bod yn noson i'w chofio. Bydd llawer o artistiaid Cymraeg sy'n ymddangos yn rheolaidd ar raglenni S4C yn cymryd rhan mewn Cyngerdd Dathlu.

Daw enw'r cyngerdd - Teulu Dyn - o linell olaf y gerdd "Cofio" gan Waldo Williams, un o brif feirdd Cymru a bardd a gyflwynodd yn ei farddoniaeth ei weledigaeth Gristnogol fawr o unoliaeth y ddynolryw.

Cyflwynir y noson gan Elinor Jones a Hywel Gwynfryn, a'r artistiaid a welir ar y llwyfan fydd: Geraint Griffiths, Dafydd Iwan, Aled Jones, Caryl Parry Jones, Hywel Teifi, Caryl Thomas, Gari Williams, Margaret Williams, Côr Meibion Llanelli, Band y Cory, Côr Plant Tonyrefail a Cherddorfa Ted Boyce.

Yn hael iawn, ni fydd yr un o'r artistiaid a'r cerddorion yn codi tâl, a hynny er mwyn i'r arian i gyd fynd i'r trydydd byd. Caiff y noson ei recordio ar gyfer S4C a bydd hyn hefyd yn codi rhagor o arian i'r fenter. Darlledir y rhaglen ddechrau mis Tachwedd fel rhan o ddathliadau trydydd pen-blwydd y Sianel.

Y bwriad yw cynhyrchu llyfryn arbennig a fydd yn cynnwys darluniau a manylion am yr artistiaid, ynghyd â thudalen a fydd yn frith o'u llofnodion.

Er mwyn i'r noson fod yn achlysur i'w gofio, ac i ddiolch i'r artistiaid am fod mor hael wrth roi o'u hamser a'u doniau i hybu achos mor deilwng, rhaid i Neuadd Dewi Sant fod dan ei sang. Dewch i ymuno â'r gynulleidfa i roi cymeradwyaeth haeddiannol i'r artistiaid. Prynwch docyn a mwynhewch y noson!

Mae'r tocynnau ar gael oddi wrth Neuadd Dewi Sant. Rhif ffôn: 371236. Consesiynau i bartion. Manylion pellach gan David Richards, Hen Felin, Dyffryn, Caerdydd CF5 6SU. Ffôn: 593082.

**Hunangyflogedig?**
**Heb Bensiwn?**

Ffôn: Caerdydd (0222) 562816

**LYNN JONES**

30, Highfields,
Llandâf,
Caerdydd, CF5 2QB

**BUDDSODDIADAU**
**YSWIRIANT BYWYD**
**PENSIYNAU**

# LLYTHYRAU

NID YW'N ARFER gan y Dinesydd gyhoeddi cyfraniadau heb i'r Panel Golygyddol dderbyn enw a chyfeiriad yr awdur. Eithriad felly yw cyhoeddi'r llythyr di-enw isod. Rhag ein cyhuddo o ragfarn fe'i cyhoeddir, ond yn y dyfodol ni chyhoeddir dim os na derbyniwn enw a chyfeiriad yr awdur. Yn naturiol ddigon, byddwn yn barod i gyhoeddi deynydd dan ffug enw ond rhaid i'r Dinesydd gael sicrwydd mai cyfraniad dilys ydyw.

Caerdydd
10 Medi 1985

"Annwyl Syr

Hoffwn dynnu sylw y darllenwyr at erthygl yn cyfeirio at D.Gareth Evans a'i benderfyniad i symud ei blant o ysgol Gymraeg yng Nghaerdydd yn y rhifyn diwetha dan y pennawd "Crafu Cefn".

Nid yw'r awdur di-enw wedi esbonio paham y symudwyd y plant.

Bu rhaid i'r plentyn hynaf ymadael â'r ysgol pan nad oedd hi'n medru ystydio y pynciau o'i dewis oherwydd y cyfyngiad a'r ddewisiadau. Ac oherwydd yr enw da sydd gan Esgob Llandaf - dewis teg, ynte.

Symudwyd ei fab o'r ysgol oherwydd nid oedd yn mwynhau'r addysg y cafodd, ac roedd yn teimlo nad oedd digon wedi ei ddarparu ar gyfer y chweched flwyddyn.

Felly mae'n amlwg nad oedd yr awdur wedi dweud y stori cyfan."

---

1 Clos Coed y Brain
Llandaf

Annwyl Dinesydd,

Yng nghynhadleddau'r S.D.P. a'r Rhyddfrydwyr, pam na chawsom ni glywed mwy o drafodaeth agored ar amddiffyn? Datganiadau gan yr arweinwyr a glywsom yn bennaf, a phrotestio gan nad ydy'r ddwy blaid yn anghytuno ar "fawr o bwys".

Medd Paddy Ashdown o gynhadledd yr SDP (trannoeth yr alanas yn Handsworth), "Fe safwn ni am lefel gall o wario ar amddiffyn. Nid ydym yn bwriadu torri gwario o un rhan o dair fel y Blaid Lafur. Ond nid ydym an wario cymaint â'r Toriaid. Rydym am ostwng ein dibyniaeth ar arfau niwcliar. Serch hynny, rydym am gadw Cruise. Rhad inni wario mwy ar arfau confensiynol."

Hoffwn i wybod beth yw lefel gall o wario ar amddiffyn. Ar adroddiadau radio a theledu o'r gynhadledd, glywais i fawr o sôn am drafod dwfn ar amddiffyn, na phobl yn gofyn a ydym yn cael "gwerth ein harian" am y symiau enfawr a wariwn arno.

Roeddwn yn disgwyl i blaid "newydd" ddangos meddylfryd dyfnach. Ond y cwbl a gawsom ar newyddion chwech oedd bod yr SDP eisiau gwario swm rhwng symiau Llafur a'r Toriaid - hynny yw, mae'r SDP yn blaid sy'n debyg i'r pleidiau eraill. Maent yn synhwyro llwyddiant etholiadol; nid yw David Owen am gyfaddawdu. Wnaiff e' ddim mentro gormod o'r statws cwo ar bolisi amddiffyn, ddim hyd yn oed i gwrdd a'r Rhyddfrydwyr.

Fel Llafur a'r Toriaid mae'r SDP o blaid amddiffyn niwcliar, ac mae'n fodlon i Brydain wario mwy o lawer na'r rhelyw o wledydd Ewrop ar amddiffyn. Dyma siom yn wir.

Ar "Post Prynhawn" trafod delwedd a safle'r blaid wnaeth Gwilym Owen gyda Tom Ellis. Dim gair ar amddiffyn, dim gair am Handsworth! (Sôn am ffidlo tra bo Rhufain yn llosgi!) Er mae'n wir i Tom Ellis ddweud wrth Gwilym Owen "Bydd polisi amddiffyn cyffredin gan yr SDP a'r Rhyddfrydwyr, rwy'n siwr".

Ac mae Tom Elis yn iawn i boeni am y mater. Medd John Cartwright, llefarydd yr SDP ar amddiffyn, "Only if the disarmament negociations fail will the SDP support the nuclear freeze". Ond mae'r Rhyddfrydwyr dros rewi'r ras arfau, ac maent o blaid anfon Cruise yn ôl - hyd yma o leiaf! Dyna ddau wahaniaeth polisi sylfaenol rhwng y ddwy blaid.

Os ydych chi, felly, yn teimlo fod rhewi'r ras arfau o'r pwys mwyaf, ni allwch bleidleisio i'r Gynghrair yn yr etholiad nesaf.

Yr un diwrnod, clywsom fod 25 eto o weithwyr y Fridfa Blanhigion yn Aberystwyth i golli'u swyddi - er mwyn arbed dim ond £280,000. Yn sicr, mae gwaith y Fridfa, o helpu gwledydd tlawd i dyfu cnydau gwell, yn well bargen na thaflegryn Cruise.

Gwen Jôs.

O.N. Ysgrifennais yr uchod drannoeth cyflafan Handsworth, a chyn clywed pôl MORI, na holi miniog Robin Day ar Paddy Ashdown yng nghynhadledd y Rhyddfrydwyr. Mae Mr.Ashdown wedi newid ei feddwl ynglŷn â Cruise. Llynedd roedd yn erbyn, eleni mae e' eisiau cadw Cruise yma - hynny er dirfawr siom i gefnogwyr C.N.D. y Rhyddfrydwyr. Dywed iddo newid ei feddwl "rhag ofn tanseilio'r trafodaethau presennol yng Ngenefa ar amddiffyn". Tybed?!

---

MAE BWRDD GOLYGYDDOL Y DINESYDD YN CADW'R HAWL I DALFYRRU UNRHYW ERTHYGLAU NEU LYTHYRAU SY'N CAEL EU CYHOEDDI YN Y PAPUR.

# CYMDEITHAS WYDDONOL CYLCH CAERDYDD

MAE DECHRAU blwyddyn arall yn yr ysgolion a'r colegau yn gyfle da i atgoffa darllenwyr y Dinesydd am weithgareddau'r Gymdeithas Wyddonol, a thrwy hynny estyn gwahoddiad cynnes i aelodau hen a newydd, yn wyddonwyr a lleugwyr, i ymuno â ni. Byddwn yn parhau i gyfarfod yng Nghlwb Ifor Bach, gan i'r gynulleidfa gynyddu mor sylweddol wedi inni symud yno y llynedd. Bellach mae'n deg dweud fod y Gymdeithas, wedi cyfnod go denau, yn edrych ymlaen yn ffyddiog i'r dyfodol. O dipyn i beth rydym yn gobeithio cynnig cymorth ymarferol i adrannau gwyddoniaeth ysgolion y cylch, yn ogystal â chynnal ein cyfarfodydd ein hunain fel o'r blaen.

Hoffem hefyd dynnu sylw - fel math o rhaghysbysiad - at ddarlith wyddonol Gymraeg arall, sydd ar raglen yr Wythnos Wyddoniaeth (Tachwedd 11 - 16) eleni. Canolfan Fathamateg, Technoleg ac Addysg Coleg y Brifysgol sy'n trefnu'r gweithgareddau, a'r nod yw poblogeiddio gwyddoniaeth, fel petae. Mae'r ddarlith Gymraeg yn agored i'r cyhoedd ac fe anogwn bawb i fynd i wrando ar yr Athro Robin Williams yn sôn am ffiniau ymchwil gwyddonol drwy lygaid ffisegwr. Mae parhad y traddodiad o gynnwys darlith Gymraeg ar raglen yr Wythnos Wyddoniaeth yn dibynnu i raddau helaeth iawn ar ymateb y gynulleidfa, ond symbyliad mwy cadarnhaol na hynny yw fod yr Athro Williams sy'n siaradwr hynod o ddifyr a diddorol - a'r un a ddenodd y gynulleidfa fwyaf i'r Gymdeithas Wyddonol y llynedd!

Cofiwch felly am y ddarlith "Ar y Ffiniau", nos Lun 11 Tachwedd, am 8.00 o'r gloch yn Arena Theatr y Sherman - mynediad am ddim!

Mae cyfarfod cyntaf y Gymdeithas Wyddonol am 8.00 o'r gloch, nos Lun 21 Hydref, yng Nghlwb Ifor Bach. Y testun fydd "Byd y Baban Cyfoes", a'r siaradwr fydd Dr.Dewi Evans, sy'n Ymgynghorydd Meddygaeth Plant yn Ysbyty Treforus. Estynnir croeso cynnes i bawb.

Gwyliwch ddyddiadur y Dinesydd am fanylion ynglŷn â chyfarfodydd eraill yn ystod y flwyddyn. Os hoffech fwy o fanylion am y Gymdeithas, cysylltwch â Sian Gruffudd (42588 est.4104) neu Eirian Jones (755944 est.3406).

# Colofn Shân Emlyn

FEL MAE PAWB yn cofio lle 'roedda nhw a beth oedda nhw'n i wneud pan dorrwyd y newydd am lofruddio Kennedy, mi dybia i y bydd pob Cymro brwd yn cofio yn yr un ffordd lle,a beth oedda nhw'n 'i wneud pan gyhoeddwyd marwolaeth Saunders Lewis.

Lle roeddwn i? Wel, mi ddwedai wrtha chi - yn mwynhau siesta bnawn Sul mewn gwesty yn Copenhagen. Daeth cnoc ar y drws - Euryn Ogwen wedi ffonio gartre a chael y newydd. Yn syth mi feddyliais, dyna gloi pennod a diwedd ar gyfnod yn ein hanes. Meddwl hefyd am dîm y Dinesydd yn rhoi'r papur i'w wely'r noson honno - a cheisio dychmygu diwyg y dudalen flaen.

Pam 'ro'n i yn Copenhagen? Yno mewn cynhadledd ar hawliau a diddordebau lleiafrifoedd Ewrop. Fel y llynedd cefais flas tu hwnt o wrando ar ddarlithoedd swmpus ddifyr a chwmnia a phobl o gyffelyb anian. Wrth wrando ar yr ymgomio, teimlais mai gwir y syniad "tlws popeth bychan". Denmarc yn ymfalchio mewn rhoi hunanlywodraeth i Greenland, Gwlad yr Ia, Bornholm ac Ynysoedd y Faroes. Y Catalaniaid a'r Basgiaid yn galw am fwy o ryddid, Llydaw, Yr Alban a'r Iwerddon yn rhyfeddol o obeithiol am ddyfodol eu hiaith o gofio arafwch gwireddu eu breuddwydion. Pawb yn eiddigeddus o lwyddiant S4C. Treulio wythnos yng nghwmni eneidiau hoff cytun, a gredai'n angerddol mai calon ac enaid cenedl yw ei hiaith a'i diwylliant.

Ar ddiwedd y gynhadledd, treulio tridiau ar ynysoedd pellenig foel y Faroes. Cenedl fechan o 45,000 â'i llywodraeth a'i hiaith ei hun, pobl falch a hyderus, a'i phoblogaeth wedi dyblu oddiar y pumdegau - a DIM diweithdra yno! Gallwn lenwi holl ofod y Dinesydd a'm profiadau a'm hargraffiadau. Gorfodaf fy hun i roi ffrwyn ar y traethu!

Dyma gloi efo profiad all fod yn ddameg ac yn adlewyrchiad o'r awyrgylch o fewn y cwmni. Aethom i dre fechan Klaksvig ac ymweld â'r eglwys leol. Pysgota yw unig ddiwydiant y dre, oherwydd anwadalwch y tywydd collir bywydau'n gyson ar y cefnfor. Yn yr eglwys crogai cwch o'r nenfwd - ac meddai cyfaill lleol "pam awn ni i'r eglwys fe deimlwn ein bod yn mynd ar long Duw, sy'n ein tywys ar fordaith bywyd". Cyn gadael adroddodd y gweinidog y fendith gan ofyn i bawb wedyn adrodd gweddi'r Arglwydd yn 'i iaith ei hun - o leia dwsin o ieithoedd. Fe wnaed hynny - syndod a rhyfeddod i mi oedd i bawb ddweud y gair Amen fel un gŵr - yn gwbwl unsain. Do fe drafodwyd llawer, fe dywedwyd llawer ac fe deimlwyd llawer yn ystod yr wythnos. Arwyddocaol i mi oedd mai'r gair cyffredin i ni gyd oedd Amen.

---

## ARDDANGOSFEYDD HYDREF

CHAPTER, Canton
4 Medi - 2 Tachwedd
Arddangosfa "Yn Fwy na'r Byw" o waith pedwar cerflunydd Cymreig, sef Paul Beauchamp, Robert Harding, David Sheppard, ac Harvey Hood. Trefnir gosodiad anferth gan bob un ym mhedwar ystafell y Brif Oriel.

TŶ TURNER, Penarth
Hydref 18 ymlaen
Arddangosfa blynyddol Cymdeithas Celf De Cymru. Yn wahanol i amryw gymdeithas tebyg wrth drefnu eu harddangosfa blynyddol, nid yw pawb yn cael dangos beth a fynnent. Yn hytrach, fe wahoddir panel o ddewiswyr annibynnol i ddethol, a'r canlyniad fel rheol yw fod safon da yn cael ei osod, a'r gweithiau sy'n ymddangos yn deilwng o sylw.

Mewn arddangosfa o'r fath yma rhaid disgwyl gweld amrywiaeth mawr mewn testunau, cyfrwng, maint ac arddull. Bydd y ffaith yma yn diddori rhai yn fwy na'i gilydd, ac os ydych yn barod i dderbyn arddangosfa cymysglyd fel hwn, wel fe gewch bryd go dda os nad gwledd!

Seiriol Davies.

## MERCHED Y WAWR LLANBEDR Y FRO

MAE'R GANGEN FACH hon, sy' erbyn hyn yn ugain o aelodau, yn eithaf nodedig gan mai'r dysgwyr yn yr ardal oedd mwyaf brwd i'w hagor. Mae'n cwrdd ym Methania, Clawdd Coch, ger Pendeulwyn, bob nos Fawrth diwetha'r mis am 8.00 o'r gloch. Erbyn hyn nid dim ond croesi'r bont a dod i'r cyfarfodydd y mae'r dysgwyr brwd hyn sydd wedi dod i gydio yn yr awennau.

Mrs.Beti Harding yw'r Llywydd, cyn-nyrs yn Ysbyty Hensol a gweithwraig frwd dros yr ysgol feithrin. Mrs.Margaret Barkway, cyn-berchennog siop flodau Cathedral Road, yw'r Ysgrifenyddes a Mrs.Joyce Brown, cyn-brifathrawes Ysgol Preswylfa, Ysgol Feithrin i blant dan anfantais, yw'r Trysorydd. Mae'r cyfuniad diddorol hwn o wragedd yn adlewyrchu trawsdoriad diddorol yr aelodaeth hefyd.

Os ydych yn byw yn agos neu a chysylltiadau â'r ardal ddiddorol ddi-arffordd hon ac am Gymdeithasu yn Gymraeg ceisiwch ddod i'n cyfarfodydd. Fe gewch groeso mawr.

## CYLCH CINIO'R MERCHED

DAETH AELODAU Cylch Cinio'r Merched ynghyd nos Iau Medi 12 i gychwyn ar weithgareddau'r tymor. Croesawyd cynulliad da i'r cinio yng Ngwesty "Thatcher's", Llanishen, gan Mrs.Myfanwy Jarman y Cadeirydd. Ar ôl pryd o fwyd arbennig o flasus, roedd yn amser i eitedd nôl a mwynhau cwmni gwesteion y noson, sef Miss Rhiannon Rees a Mrs.Eirlys Pritchard Jones. Roedd hi'n bleserus tu hwnt i gael gwrando ar y llu o atgofion a straeon wedi'u cyflwyno yn null dihafal Rhiannon. Yna, daeth y ddwy at ei gilydd i gyflwyno detholiadau arbennig o effeithiol ar lafar ac ar gan, o waith y diweddar Saunders Lewis ac eraill o gewri llenyddol ein cenedl. Fe aeth pawb adre wedi cael noson i'w chofio.

A sôn am gofio! Cofiwch ddod tro nesa! Tachwedd 14 yw'r noson i nodi yn eich dyddiadur. Fe fydd un o forynion glandeg Christian Dior yn dod i ddangos inni sut i goluro'n wynebau. Pwy a ŵyr, efallai y cawn ni'r merched a'r dynion sioc ar yr ochr orau.


TIWTOR PIANO

Gwersi piano gan
Athrawes Graddedig
a phrofiadol yng nherddoriaeth
A.L.C.M; A.Mus.L.C.M; L.T.C.L.

Cysylltir trwy ffonio:
Caerdydd 628765
ar ôl 4.30 o'r gloch.

Os am
DIWNIWR PIANO
Cysyllter â
Hefin Tomos,
62 Heol Monthermer,
Y Waun Ddyfal.
Ffôn: Caerdydd 43367



A ydych yn priodi eleni?
Ffotograffiaeth Creadigol gan
GWENAN
CAERDYDD 732233
Lluniau rhamantus sy'n creu atgofion melys.

# ENKA

ENKA: GERAINT JARMAN
TELIESYN/SAIN

MAE ACHLYSUR rhyddhau record newydd gan Geraint Jarman bob tro'n cael ei ddisgwyl yn eiddgar, er nad yw'n gymaint o eilun y dyrfa ag a fu. Fyth er ei record hir gynta'n ôl ym 1976, bu'r cyfuniad â Tich Gwilym yn sicr o gynhyrchu caneuon cofiadwy, ac mae gwaith cynhyrchu Simon Tassano yn sicrhau ansawdd sain o'r radd flaenaf. Gobeithio nad gwir y sibrydion bod partneriaeth Jarman a Tich wedi cynhyrchu eu record olaf.

Tueddodd recordiau diweddar Jarman i fod yn fwy "mwynaidd" (os dyna'r gair) na'r rhai cynnar, gyda'r pwyslais ar ganeuon reggae araf yn hytrach nag anthemau'r "rocyrs a'u gwalltau cwrlog". Efallai bod hyn yn dweud ynom oll wrth heneiddio, ac mae'n wir am y Fideo/L.P. "Enka" hefyd.

Rhaid sylwi'n gyntaf bod y sefyllfa yng Nghymru'n anheg i raddau, gan mai dim ond rhai grwpiau sy'n cael cynnig gwneud fideo gan y cwmniau teledu - ac yn eu tro mae'r fideos hyn yn cael eu cyflwyno gan S4C fel rhywbeth amgen na hynny. Ond dyna'r cyfan yw "Enka", fideo o'r L.P., hefo'r Enka bondigrybwyll yn gyswllt gwan iawn rhwng y caneuon. (Weithiau mae cantorion roc Cymraeg yn fwy tywyll na'u cefndryd, y beirdd.) Mae sôn bod teitl mwy "gwleidyddol" wedi bod ar y gwaith, a chaneuon caletach hefyd - ond bod S4C wedi mynnu glastwreiddio'r cyfan. Os gwir hynny, yna mae'n dda gweld bod MI5 yn dal yn fyw ac yn iach yng Nghaerdydd, ond mae rhywun yn synnu bod Jarman wedi cytuno â'r fath olygu.

Yr hyn sy'n aros yw wyth can, a'r rheini'n fras yn ymdrin â chaethiwed y bywyd cyfoes, ac ag ymgais y canwr i ddianc o'r bywyd hwnnw. Braidd yn hen ffasiwn erbyn hyn yw'r cefndir yn nociau Caerdydd a roddwyd i'r caneuon, fe'i gwelwyd dro ar ôl tro o "Dim ond heddiw" hyd "Bowen a'i Bartner". Roedd y fideo'i hun yn ddigon diddorol o ran cynnwys, ond eto heb gynnig llawer mwy na lluniau o'r grwp mewn sefyllfaoedd gwahanol. Ychydig iawn o ymgais i greu stori oedd yna. Gellid bod wedi gobeithio efallai am rywbeth yn null fideo gwaharddedig Jagger, "Undercover" - ond wedyn ni fuasai gan S4C raglen drichwarter awr!

O droi at y caneuon rhaid cyfaddef mai braidd yn ddigyffro oedd yr hanner cyntaf, gyda'r gân "Carcharorion" yn sefyll allan. Heb y sloganau bachog ("Ethiopia Newydd", "Gwesty Cymru", "Instant Pundits" a.y.b.) mae llawer o'r caneuon yn tueddu i fynd yn undonog. Dyw geiriau'r caneuon diweddar hyn ddim i'w cymharu 'chwaith â chynnwys recordiau fel "Gwesty Cymru" (ei record hir orau'n fy marn i).

Mae ail hanner y fideo/record yn llawer gwell. Mae geiriau'r gan reggae "Tra bo'r môr yn hallt" yn adleisio'r hen benillion Cymreig, ac yn rhoi cyfle i Tich ddangos ei ddawn ag offerynau de America. Mae "Cenhadon Casineb" yn gân gyfarwydd ar lwyfan ers tro, ac yn debycach i ddeunydd cyfnod "Gwesty Cymru". Mae'n defnyddio achos Wayne Williams fel enghraifft o ormes y "cenhadon casineb", ac i raddau mae hynny'n dyddio'r gân, ond heb leihau dim ar ei grym na'i neges.

Y drydedd gân ar yr ail ochr yw'r anthem Rasta, "Paratoi'r ffordd i Seion" - cân reggae hyfryd sy'n dangos y Cynganeddwyr ar eu gorau. Yna daw'r record i ben gyda "Seiniau Siam", sy'n parhau'r thema o ddianc rhag caethiwed bywyd, y tro hwn i Japan a'r Dwyrain pell - i geisio'r Enka mae'n debyg.

Ychydig iawn o gyffro a gwefr Jarman y "Steddfod yn y ddinas" a geir ar y fideo/record newydd yma - ond wedyn fe ddaeth rhyw hud arnom oll ers y dyddiau cyn-refferendwm hynny. Mae rhyw flinder yn ei lais erbyn hyn, yn gweddu i un sy'n ceisio dianc. Ond mae'n werth prynu'r record ar gyfer yr ail ochr yn unig - a gobeithio y medrwch ddehongli cyfrinach fawr yr Enka'n well na fi.

Iwan Llwyd.

---

# ROWAN I'N SIOMEDIG

ART IN WALES. An Illustrated History 1850-1980. Eric Rowan. Cyngor Celfyddydau Cymru a Gwasg Prifysgol Cymru, 1985. £35.

YN DRADDODIADOL, ychydig iawn o sylw ydyn ni fel Cymry wedi rhoi i gelfyddyd, gan ein bod wedi arfer rhoi'r pwyslais ar gerddoriaeth a llenyddiaeth. Un o'r rhesymau am hyn, efallai, yw nad oedd cystal cyfundrefn o nawddogaeth ar gael i artistiaid ar hyd yr oesoedd ag oedd i feirdd a chantorion. Gan nad oedd y Cymry yn fasnachwyr mawr fel teuluoedd Eidal y Dadeni, nid oedd galw am gomisiynnau a ddangosai "conspicuous consumption" drwy gyfrwng celfyddyd, a ddefnyddiwyd fel arwydd o lwyddiant ariannol a chymdeithasol.

Yn "Art in Wales", mae Eric Rowan wedi gwneud gwaith teilwng iawn o olrhain hanes nawddogaeth celfyddyd yng Nghymru yn yr ugeinfed ganrif. Gan nad yw Caerdydd yn ganolfan marchnad gelfyddyd enfawr fel Efrog Newydd neu Baris, mae artistiaid yn dibynnu'n helaeth ar haelioni Cyngor y Celfyddydau.

Mae'r arwyddocaol mae "Art in Wales" ac nid "Welsh Art" yw teitl y llyfr, gan nad yw Eric Rowan yn ceisio dadlau bod y fath beth â chelfyddyd Gymreig a'i hidiomau ei hun yn bodoli. Y mae sôn am waith artistiaid o Gymru a aeth ymlaen i weithio mewn cyd-destun Prydeinig neu Ewropeaidd - Gwen ac Augustus John, er enghraifft - yn ogystal ag am rai a ddaeth i Gymru i weithio neu i fyw - Eric Gill, David Jones, Josef Herman yn eu plith. Gwêl bod celfyddyd yng Nghymru wedi bod yn is-ffrwd fywiog yn cyfrannu i lif hanes celfyddyd y Gorllewin. Efallai mai un o fanteision safle ymylol Cymru ar fap celfyddydol Ewrop yw ei fod wedi rhoi rhyddid i artistiaid unigol ddatblygu eu harddull eu hunain, yn rhydd o bwysedd ffasiwn, "ysgolion" o baentio, neu flaengad ffyrnig o bartisan.

Peth braf iawn yw gweld llyfr cyfan yn talu sylw i gelfyddyd fodern. Hyd yn oed os na fydd asesiad Rowan o waith yr wythdegau yn dal pan edrychwn yn ôl yn y dyfodol, fe fydd wedi creu man cychwyn ffrwythlon i ni.

Ond, mewn llyfr celf sydd yn costio pymtheg punt ar hugain, mae'r testun ei hun yn llai pwysig na thystiolaeth yr atgynyrchiadau yn y gyfrol am sefyllfa celfyddyd gyfoes. Cefais fy siomi gan ddiwyg y gyfrol. Mae safon rhai o'r atgynhyrchiadau yn wael - gallai camera instamatig fod wedi rhoi darlun cliriach o'r cerfluniau ar adeiladau cyhoeddus Caerdydd na'r rhai a gawsom. Does dim pwynt cyhoeddi llun du a gwyn o waith Gwen John, gan fod amlinelliad y darlun, a'i gyfansoddiad ffurfiol yn dibynnu'n gyfangwbl ar y lliwiau. Mae'r wybodaeth a geir gyda pob darlun yh rhy hir, ac yn ail-adrodd deunydd o'r bennod, ac yn edrych yn flêr. Waeth pa mor deilwng yw testun cyfrol (ac y mae hwn yn un pwysig a diddorol iawn) ni ddylai bod disgwyl i'r cyhoedd dalu cymaint am lyfr celf wedi ei osod allan mor wael. Wedi'r cyfan, mae blerwch artistig yn niwyg cyfrol fel hon gynddrwg â gwallau iaith mewn llyfr gramadeg ac yn tynnu oddi wrth hygrededd y fenter.

Gwyneth Lewis.

# Criw'r Dinesydd Yn Ffarwelio â Merêd a Phyllis

Bu i rywun a'i briod a ddenwyd
i'r Brifddinas ganfod
ei bai hi a gweled bod
rhyw wacter i'w Chymreictod,
a rhaid oedd i Meredydd a'i Phyllis
hoff hel at ei gilydd
griw dewr o Ddinas Caerdydd
i osod Y Dinesydd
ar ei draed, ac ar fyr o dro yr oedd
pob Cymraes a Chymro
'n y ddinas yn eidduno
hir barhad i'r papur bro
cyntaf un, pob rhifyn heb bris yn 'byd,
heb wall o gael dewis
i'w baratoi egsbyrtîs
di-ffael Merêd a Phyllis,
y cyn-Americanes hudolus
a del a ymroddes
mor llwyr i Gymru a'i lles
a'i mynnu at ei mynwes,
ond bellach, â'r gyfeillach fawr ar ben
a'r bennod lafurfawr,
anorfod yw'r ofn dirfawr
y bydd Y Dinesydd 'nawr
â'i ffyniant yn y fantol oherwydd
bydd hiraeth affwysol
ar y rhai sy'n para ar ôl
am y ddau sy'n ymddeol.

YN YSTOD Y NOSON o ddiolch galwodd Shân Emlyn ar Arfon Williams, a fu wrth y llyw yn gofalu am golofn farddol y Dinesydd am flynyddoedd lawer, i gyflwyno anrheg arbennig iawn i Phyllis a Merêd. Roedd yn arbennig, gan mai Arfon oedd awdur yr anrheg - sef saith o englynion, neu mewn gwirionedd, un frawddeg mewn saith o englynion. Dyna i chi gamp. Roedd y cwbl wedi eu llythrennu yn gywrain iawn a'u gosod mewn ffrâm gan Bob Roberts. Darllenwyd y campwaith gan yr awdur, a phleser yw ei atgynhyrchu uchod.
Anrheg go anghyffredin i bâr go anghyffredin.

DIOLCH YN FAWR!

SYNIAD ardderchog oedd trefnu noson yng Nghoed-y-Pry, Cyncoed, er mwyn i'r Dinesydd gael diolch i Merêd a Phyllis, a dymuno'n dda iddynt yn Afallon, Cwm Ystwyth. Maent wedi ymgartrefu yn rhan-amser yno ers tro bellach. Ond wedi i Merêd ymddeol o'r Brifysgol maent wedi mynd yno i fyw amser-llawn fel petai.

Mae Merêd a Phyllis wedi bod yn gysylltiedig â'r Dinesydd o'r cychwyn cyntaf, ac wedi bod yn gefn iddo drwy'r blynyddoedd. Does dim yn arbennig yn hynny, meddech chi, gan fod y ddau wedi bod yn gefnogol i lawer o achosion a mudiadau Cymraeg a Chymreig. Mae'r arbenigrwydd yn y ffaith fod eu cefnogaeth mor drylwyr a chadarn bob amser.

Roedd nos Wener 20 Medi yn noson braf a chynnes - nid oeddwn wedi golygu hynny yn nhermau'r tywydd, ond mi roedd hi felly yn yr ystyr yna, ond roedd yn llawer mwy felly yn y gymdeithas hapus a gafwyd. Sgwrs a thamaid blasus i gychwyn, glasiad (neu ambell lasiad) o win ac yna teyrnged i'r ddau wron. Cafwyd cyfarchiad ar ffurf cadwyn o alawon gwerin addas iawn i'r achlysur gan Shân Emlyn, yn swynol fel arfer, ac yna fe alwodd hithau ar yr "hynafgwr" Raymond Edwards, ef yn un o sylfaenwyr a chyn-olygyddion y Dinesydd i siarad. Talodd Raymond deyrnged odidog i Merêd a Phyllis gan ein hatgoffa sut y bu i'r papur ddod i fodolaeth a diolchodd am yr hyn a wnaethant i hybu'r gwaith.

Diolchodd Merêd dros y ddau ohonynt - gyda tipyn o borthi o gyfeiriad Phyllis. Cawsom ambell i stori fach ganddo, ac mi fydd Llew Llaw Gyffes yn Llew Llaw Griffiths inni byth mwy. Yna fe ganodd "Gan y Cwcwallt" yn ei ddull dihafal ei hun i lonni calon pob un ohonom. Fe gafodd yntau berswad ar Mallt Anderson i adrodd "Dyn Bach Od". Mae cof anhygoel gan Mallt. Dywedodd Beryl Hall dipyn o stori am Phyllis yn canu'r Aleliwia gan Mozart yn yr Eisteddfod Ryng-Golegol amser maith yn ôl, a hithau yn ymfalchio ei bod hi yno ar yr achlysur.

Diweddglo hapus iawn i noson eithriadol felly oedd gwrando ar Merêd a Phyllis yn canu "Os daw fy nghariad i yma heno".

Mae'r ddau yn byw yn eu Afallon newydd. Maent yn mynd â'u Afallon efo nhw, ble bynnag yr ant. Fel yng ngeiriau T.Gwynn Jones:

"Yno mae tan pob awen a gan,
Grym, hyder, awch pob gŵr a ymdrecho".

Dymunwn hir oes a phob hapusrwydd iddynt yn Afallon, Cwm Ystwyth.

Beryl Hall.

HTV CYMRU

# CROESO I GROES CWRLWYS!

## Gwahoddwn chi i ddod fel cynulleidfa i'n Canolfan newydd

## Croeso i grwpiau ac unigolion o bob oed

Cysylltwch â ni drwy lythyr:

**Swyddfa Cysylltiadau Cyhoeddus**
**HTV Cymru**
**Y Ganolfan Deledu**
**Croes Cwrlwys**
**Caerdydd**
**CF5 6XJ**

Neu ffoniwch:

**Caerdydd (0222) 590241** neu **590243**

# TORTH O FARA

YN RHIFYN MIS Medi o'r Dinesydd galwodd Meurwyn Williams am ragor o gefnogaeth ymarferol i'r ymgyrch yn erbyn prynu nwyddau a fewnforiwyd o Dde Affrica. Ar ôl darllen yr erthygl euthum i swyddfa Mudiad Gwrth-Aparteid Cymru yn 43 Heol Glenroy, y Rhath, i gael mwy o fanylion am nwyddau a ddaw o Dde Affrica.

Dylid rhoi clod i'r mudiad yn y lle cyntaf am gyhoeddi gwybodaeth yn y Gymraeg - da fyddai gweld mudiadau llawer mwy ariannog yn gwneud ymdrech gyffelyb.

Nid yw'n deg bob amser i gymharu cyflogau mewn gwahanol wledydd gan fod ystageau moel yn aml yn anwybyddu'r ffactorau sy'n dylanwadu arnynt, ond mae un enghraifft o anghyfiawnder yn Ne Affrica yn cael ei ddarlunio'n effeithiol drwy gymharu'r cyflogau a ennillir yn y wlad gan bobl gwyn eu croed ac Affricaniaid mewn swyddi cyffeleb.

Daw llawer o gynnyrch y diwydiannau yma i'n gwlad ni, a gwelir hwynt ar silffoedd siopau ym mhob man gan gynnwys siopau a redir gan bobl o darddiad cenedlaethol y tybiech fyddai'n fwy cydymdeimladol i gyflwr pobl croenddu De Affrica. Mae llawer o bethau eraill anghyfiawn yn digwydd o dan reolaeth P.W.Botha a ddylai'n gwneud ni yn fwy gofalus pan yn prynnu nwyddau - ni soniaf amdanynt yma.

Mae'r gyfraith labeli ym Mhrydain yn gorfodi gwneuthurwyr bwyd i roi enw'r wlad o ba le y daw'r bwyd yn wreiddiol ar y deunydd pacio a gall hyn fod o gymorth i'r rhai hynny ohonom sy'n ceisio osgoi prynu nwyddau o Dde Affrica. (Ceir labeli tebyg hefyd ar ddillad.) Gyda rhai bwydydd, fodd bynnag, fel y dywed y label, "o gynnyrch sawl gwlad", nid yw'r dasg o ddethol mor hawdd.

O dan y tabl isod, fe welwch restr o fwydydd a ddarperir gan gwmniau ryngwladol sy'n deillio'n wreiddiol o Dde Affrica - fe'i dosberthir yn ôl y mathau o fwyd. Daw'r wybodaeth, unwaith yn rhagor o Fudiad Gwrth Aparteid Cymru.

CYFLOGAU YN NE AFFRICA A NAMIBIA

| | Gwynion | Affricaniaid | |
|---|---|---|---|
| Cyflog ar gyfartaledd | £7,300 | £1,779 | y flwyddyn |
| Diwydiannau cynhyrchu | 960 | 234 | y mis |
| Y Diwydiant Dillad | 738 | 100 | y mis |
| Y Diwydiant Bwyd | 761 | 158 | y mis |
| Y Diwydiant Diodydd | 786 | 251 | y mis |
| Y Diwydiant Defnyddiau | 992 | 137 | y mis |
| Y Diwydiant Tobacco | 925 | 141 | y mis |
| Y Diwydinat Lledr | 667 | 134 | y mis |
| Y Diwydiant Aur | 895 | 164 | y mis |
| Y Diwydiant Glo | 794 | 172 | y mis |

Ystadegau: Mudiad Gwrth-Aparteid Cymru.

Gyda siopiau sy'n gwerthu nwyddau gan ddefnyddio eu henwau eu hunain rhaid edrych ar y label i weld o ba wlad y mae'r nwyddau'n dod.

Roeddwn yn flin ac yn siomedig gweld cymaint o ffrwythau a llysiau o Dde Affrica yn cael eu gwerthu yn archfarchnadoedd Tesco a Sainsbury bum ynddynt yn siopa'n ddiweddar. Pan edrychais am ddewisiad arall ychydig oedd ar gael o orenau, grawnffrwyth a lemwnau o wledydd heblaw De Affrica. Mae lle i ni fel prynwyr i gwyno am hyn. Trueni nad oes mwy o weithwyr vyn fwy tebyg i'r ddwy ddewr yn Iwerddon a lynodd wrth eu hegwyddorion drwy wrthod ymdrin â nwyddau o Dde Affrica. Llwyddodd eu gweithred newid polisi'r cwmni oedd yn eu cyflogi - ni fyddant yn gwerthu nwyddau o Dde Affrica yn 'eu harchfarchnadoedd yn y dyfodol.

Ffrwythau Ffres/Tun/Sych:
Cape, Outspan, Goldeb Jubilee, Gold Reef, IXL, Koo, Grants, Turban, Libbys, Silver Leaf, Del Monte, Goddess, John West, Sharwood, S&B.
Cig Tun:
Aper, Armour Star, Union, S&B, Bull Brand.
Pysgod Tun:
Glenryck, Armour, John West, Puffin, S&B.
Gwin a gwirodydd:
Zonnebloem, Lanzerac, Koopmanskloof, Rembrant, S.A.Sherry, S.A.Hoch, S.A. Burgundy.
Bwydydd iachus:
Shapers, Koo, Rooibosch
Bwydydd anifeiliaid:
Bwyd i gathod gan Happy Pet

Diddorol hefyd yw gweld bod ein awdurdod lleol, o dan reolaeth Llafur, yn caniatau i ysgolion brynu bwydydd parod sy'n dod o Dde Affrica. Ai dyma enghraifft o gyllid yn rheoli dros egwyddorion? Mae nifer fawr o gwmniau Cymru a chysylltiadau a De Affrica (ceir rhestr 4 tudalen o swyddfa'r Mudiad Gwrth-Aparteid).

Mae arweinyddion y duon yn Ne Affrica yn galw ar i holl wledydd y byd gefnogi eu brwydr dros ryddid trwy beidio â phrynu nwyddau o'r wlad. Dyna pam y dywedodd Nelson Mandela, mewn neges a gludwyd yn gyfrinachol o'i gell, "Mae pob ymgais i ynysu De Affrica yn grymuso'n brwydr". Tybed a ydi problemau De Africa yn golygu digon i chi a mi weithredu mewn rhyw ffordd neu ydi gweithredoedd Mrs.Thatcher a'i llywodraeth yn siarad dros gredoau pobl Cymru?

Hoffwn ddioilch i Hanif Bhamjee, Trefnydd Mudiad Gwrth-Aparteid Cymru, am y cefndir ar gyfer yr erthygl hon.

# CYNGOR Y DYSGWYR

FFURFIWYD CANGEN newydd o Gyngor y Dysgwyr mewn cyfarfod yng Nghlwb Ifor Bach nos Sul 1 Medi. Amcan y Cyngor ydy rhoi cyngor a chefnogaeth i bobl sydd eisoes yn dysgu'r Gymraeg neu sy'n ystyried dysgu'r Gymraeg fel ail iaith. Y gobaith yw tynnu'r "Cymry o ddewis" hyn, y dysgwyr, a'r Cymry Cymraeg eu hiaith at ei gilydd i weithio a chymdeithasu yn Gymraeg.

Mae cangen Caerdydd yn dechrau'i gweithgarwch trwy dynnu sylw at y cyrsiau i ddysgwyr sydd yn dechrau ym misoedd Medi a Hydref eleni. Bwriadwn wneud gan ddosbarthu miloedd o bosteri o gwmpas y dref. Y mae posteri ar gael gan Elen Rhys ar Gaerdydd 32326 yn ystod y dydd.

Bydd y gangen hefyd yn trefnu cyfres o weithgareddau cymdeithasol a fydd yn dwyn Cymry a dysgwyr at ei gilydd mewn modd ymarferol a phleserus. Y digwyddiad cyntaf bydd "Noson o win a chaws" ar nos Fawrth 1 Hydref.

Mae'r gangen yn cyfarfod yng Nghlwb Ifor Bach ac mae croeso i ddysgwyr a Chymry, athrawon a chyfeillion y dysgwyr, pob nos Fercher am 9.00 o'r gloch. Cost aelodaeth ydy £3 y flwyddyn ac fe fydd ffurflenni ar gael gan bob athro ar ddechrau'r tymor newydd.

# BRAS - ODLAU

gan EMYR LEWIS

DWY GERDD y mis yma gan fardd sydd wedi dychwelyd yn ddiweddar i'w gynefin yng Nghaerdydd, sef Gareth Sion. mae'r gerdd gyntaf, "Ar Wahan", wedi ei chlywed, mewn fersiwn hirach, fel "rap" ar raglen "Heno, Heno ..." HTV. Mae'n cychwyn mewn modd sy'n cyfrwys arwain y darllennydd (neu'r gwrandawr) i gredu ei bod yn mynd i fod yn un rhibidires o enwau haniaethol fel cymaint o'r rwts sy'n sbowtio o binau'n beirdd ond buan y newidir hynny gan y 'delweddau' diriaethol, nes bod rhywun yn gweld yr 'absenoldeb' fel rhyw ddiriaeth enbyd, yn hytrach na gair haniaethol.

AR WAHAN

Y gwacter ynof fi wyt ti
a'r oriau man
sy'n llawn delweddau
o'th absenoldeb di.

Mae'r stafell a fu'n llawn o
ddodrefn ein cyd-fyw
yn wag,
y drws yn gwichian yn y gwynt
drwy'r oriau man
a'r waliau'n llaith gan ddagrau.

Mae'r nos yn drwm
a duwch gwag
a'r drws yn gwichian yn y gwynt.

Mae Gareth wedi bod yn arbrofi gyda gosod geiriau a cherddoriaeth at ei gilydd ers cryn amser bellach,ac mae ôl yr ymdrech honno i'w weld yn ei ail gerdd, 'Mewn Cafe ' a'i hymdeimlad cry o rithm a ffurf. Mae hi'n gerdd sy'n llwyddo'n arbennig oherwydd ei mynegiant gwrthrychol, diriaethol. 'Does dim gair gwastraff ynddi. Mae'r gynghannedd a'r bras-odlau yn y cychwyn yn cyfleu llun taclus, sy'n cael ei ddadfeilio'n ara'-deg wrth i'r ail adrodd droi tua diwedd y gerdd o fod yn addurn i fod yn fwrdwn obsesiynol.

MEWN CAFE

'Roedd mwg y sigaret
yn dynn fel niwl amdano
mewn cafe
am ddau y bore

mewn cafe
y gwydr yn gysurus
wrth ei wefus
am ddau y bore
mewn cafe

a hithau'n glyd
mewn gwely
'mhell i ffwrdd
am ddau y bore
'mhell i ffwrdd

mewn gwely dieithr
ymhell i ffwrdd
am ddau y bore.

# BWTH RUTH

WEL HYLO A PHA hwyl sydd y mis yma? Dw'i lawer iawn yn well, dwn i ddim ddaru chi sylwi fod fy nghyfraniad i'r mis dwetha yn un ddi-ffrwt. Wel, a deud y gwir mi ges i andros o waith setlo i'w sgwennu, doedd na jyst ddim yn dod - dim syniad, dim brwdfrydedd a dim amynedd, OND erbyn hyn mi rydwi wedi cael gwyliau.

Llonydd, cysgu, cerdded a darllen sy'n gwneud gwyliau da i mi - a'r hyn sy'n gwneud gwyliau sbesial ydi haul, ag mi ges i'r cyfan mewn pentre bach braf o'r enw Los Gigantes ar Ynys Tenerife. Wnes i ddim symud o'r pentre am wythnos gron. A toes gen i ddim cywilydd dweud na fues i yn yr un dref ar yr ynys, wnes i ddim dringo i weld yr eira ar fynydd Teide, des i ddim i weld rhai o'r ffermydd bananas nag ar y llong hwyliau y Nostradamus oedd yn hwylio bob dydd o gwmpas yr ynys. Ond mi ges gysgu yn yr haul, darllen dau lyfr, a hynny ar un eisteddiad, coffia mewn bar bach i lawr y ffordd o'r fflat lle rown i'n aros. Mi fwynheais goginio bwyd lleol mewn cegin ddiarth, teimlo'n drist wrth wrth ddarllen am farwolaeth Laura Ashley a hel meddyliau yn ogystal â darllen papur bro yr ynys a meddwl y buasech chi'n gwerthfawrogi'r canlynol ohono - riset am fenyn grawnwin.

Dyma sydd ei angen:
1 pwys o rawnwin du neu wyrdd
8 owns o siwgr i bob pwys o ffrwyth.

Golchwch y grawnwin a'u rhoi mewn sosban go drom a'r clawr yn ffitio'n dynn, neu ferwch hwn a phan fydd y ffrwyth wedi chwalu rhowch y cyfan drwy ridyll neu yn y prosesydd bwyd. Ychwanegwch y siwgr a'i roi nôl yn y sosban a'i droi uwchben y gwres nes bydd yn tewhau. Berwch nes bod yr hylif wedi ei amsugno. Tywalltwch i jariau bach glan a chynnes.


Cofiwch fod menyn fel yma yn cadw am dri mis, ond wedi ei agor mae'n rhaid ei gadw mewn lle oer fel y pantri neu'r cwpwrdd oer. Anrheg Nadolig i rywun! Hwyl.

# SÊR Y DINESYDD

EIRY PALFREY

ARIES: Bydd hwn yn fis ardderchog i hyrwyddo pob agwedd o'ch gwaith, ond gwyliwch rhag digio rhai o'ch cyd-weithiwr. Bydd y darnau'n syrthio i'w lle y mis hwn.
TAURUS: Mae pethau ar i fyny yn y gwaith (o'r diwedd!) a lwc dda o'ch tu. Mis rhamantus iawn fydd hwn i godi'ch calon cyn yr hirlwm. Daw newidiadau tyngedfennol ddiwedd y mis.
GEMINI: Mis prysur a bywiog gyda digon o gymdeithasu. Cyfnod llewyrchus i athrawon. Bydd hwn yn fis da i gynllunio tuag at y dyfodol. Mae teithio tramor ar y cardiau.
CANCER: Mae'r pwyslais ar y cartref y mis hwn - cadwch lygad barcud ar y plant. Mae'n bosibl y clywch newyddion cyffrous ac annisgwyl. Efallai y bydd cyfaill neu berthynas yn symud i ffwrdd.
LEO: Cymrwch ofal o'ch arian y mis hwn - mae argoelion y cewch eich temptio i or-wario, neu gall eraill gymryd mantais o'ch haelioni. Mis ardderchog i werthu neu harddu'r tŷ.
VIRGO: Mis ardderchog yn ariannol ac yn y gwaith ac amser i fwynhau bywyd cymdeithasol. Cewch gyfle i ddefnyddio eich talentau i'r eithaf. Bydd eich iechyd mewn cyflwr ardderchog.
LIBRA: Bydd hwn yn fis ffodus i chi - bydd pob agwedd o'ch bywyd yn ehangu (cymrwch ofal o'r pwysau!) Daw sawl cyfle ffodus heibio - cymrwch fantais ohonynt.
SCORPIO: Daw llawer o'ch dymuniadau'n wir y mis hwn - yn enwedig yn y gwaith. Cyfnod rhamantus iawn - ond i chi beidio â bod yn rhy fyrbwyll.
SAGITTARIUS: Mis prysur, yn enwedig os ydych chi'n uchel-geisiol - fe welwch sawl cyfle lwcus o'ch blaen - cymrwch fantais ohonynt i fwrw'r maen i'r wal.
CAPRICORN: Pwyswch y brêc y mis Hydref hwn - cymrwch ofal. Mae'n bosibl y cewch broblemau cyfreithiol, ond yn ariannol ni all dim eich atal. Daw hen ffrind yn ôl i'ch bywyd.
AQUARIUS: Dyma un o gyfnodau llewyrchus eich bywyd - daw llwyddiant i'r holl feysydd sy'n bwysig i chi. Daw partneriaeth, mewn serch neu fusnes, a llawer o foddhad i chi.
PISCES: Bydd y pwyslais ar bartneriaeth y mis hwn - cyfnod rhamantus a llewyrchus iawn. Os ydych yn ymwneud â busnes dylai pob darn syrthio i'w le.

# Y CROESAIR - Ap Lewsyn RHIF 55



AR DRAWS:

1. Mi es allan am funud ar neges. (7)
5. Goddef gŵyl yr Alban i gyd o chwith. (7)
9. Bydd yr hyn a gaf ar ôl yn anniben ___ rwy'n synhwyro hynny. (7)
10. Un o'r hen stiwdants yna. (7)
11. Dihareb y tri chorn yn gimig amwys. (6,3,1,5)
12. Cynnud a ddefnyddir yn yr ysgol, os gellir ei gael. (6)
14. Un o arwyddion edifeirwch. (8)
17. Mae hi'n ddu ar gartre'r hen frodyr ar y Preselau. (8)
18. "O'r diwedd mi ddaeth Angau,
    Rym ti lidl ai.
    Gafaelodd yn ei ______,
    Rym ti lidl ai."
    (Can Werin) (6)
21. Achosi tipyn o ffwdan wrth gyffroi amynedd gŵyr du Môn. (6,3,1,5)
24. "______ a gosto". (7)
25. Cefais fy ffordd. (7)
26. Fe fydd Noel efallai yn traethu ffug-chwedlau. (7)
27. Darostyngedig. (7)

I LAWR:

1. Hawdd rhoi siap newydd ar y tip glas. (7)
2. Fe wnawn gofnod ohono. (9)
3. Mae'r sŵn yn awgrymu mai dos o moddion (ffisig) sydd ger eich bron. (5)
4. "ni ______ yn y Farn" (Salm) (6)
5. Bu brwydr rhwng un goch ac un wen (medden nhw) ymhell cyn Rhyfel y Rhosynnau. (8)
6. Troi yn ôl rhag rhoi lle all fod yn or-glwth i gi. (9)
7. Byddai neb yn sôn amdani fel Mrs.Griffith. (5)
8. Artaith. (7)
13. Ni all neb gyhuddo'r Bedyddwyr o fod felly. (3-6)
15. "A'r ddaear oedd ________ a gwag." (Genesis) (9)
16. Rhy. (8)
17. Gwaith bridwyr bytheiaid. (4,3)
19. Dengys ei olwg ei fod o dras. (7)
20. Byddai cri o gwmpas y lle hwn wrth ddisgrifio osgo'r hen ŵr. (6)
22. Y porth hwn sydd i dy fy nghymydog. (5)
23. O Garara o bosib. (6)

---

DATRYSIAD CROESAIR RHIF 54

AR DRAWS: 1.Cerrigydrudion; 10.Trons; 11 (a 27).Llanrhaeadr Ym Mochant; 12.Odditano; 13.Rhybuddio; 14.Annog; 16.Wedi ymladd; 19.Delfrydol; 20.Tynfa; 22.Ficerdy; 25.Argoeli; 27.(uchod) Ym Mochnant; 28.Logai; 29.Llygru'r Awyrgylch.

I LAWR: 2.Emosiynol; 3.Rwsia; 4.Galluogwyd; 5.Dyner; 6.Uchafbwynt; 7.Iraidd; 8.Nerthoedd; 9.Atgoffa; 15.Gwrthrychau; 17.Daliant fy; 8.Lond ei gol; 19.Dy fwyell; 2 .Afiaith; 23.Camog; 24. Y bara; 26.Gellyg.

YMDDIHEURIAD:
Diofalwch Ap Lewsyn oedd yn gyfrifol am adael allan cliw 18 i lawr. Dyma oedd y cliw, er na fydd hynny yn fawr o gysur i reiny ohonoch a fu'n poeni am y peth.
18 i lawr:
"Duw rydd eilwaith ____ __ __
diolch iddo." (Dyfed)
Yn wyneb yr anffawd yma, barnodd y Panel Golygyddol mai gorau fyddai diddymu'r gystadleuaeth am y mis hwn er tegwch i bawb.

---

CYSTADLEUAETH RHIF 55:
Cynigir tocyn llyfrau Cymraeg am £5 y mis hwn eto. Enw neu ffugenw a chyfeiriad ar ymyl y croesair a'i anfon, os gwelwch yn dda, i gyrraedd Ap Lewsyn, 13 Rannoch Drive, Cyncoed, Caerdydd, erbyn HYDREF 17eg.

---

MERCHED Y WAWR

AR NOS LUN 9 Medi croesawyd aelodau hen a newydd i gyfarfod cyntaf y tymor gan y Llywydd Buddug Lloyd. Yna traddododd Marian Eames ddarlith ar ddwy ferch sef Ann Griffiths a Mari Lewis. Cawsom gipolwg ar fywyd y ferch o Ddolwar Fach a'i chyfraniad unigryw i'n llenyddiaeth. Ym mherson Ann Griffiths cawn flaenffrwyth Diwygiad Methodistaidd y ddeunawfed ganrif. Ym Mari Lewis cawsom bortread o wraig ddychmygol mewn nofel a oedd yn gynnyrch gwaddol diweddara y diwygiad a synhwyrodd y gwrthryfel cymdeithasol yn erbyn dylanwadau'r diwygiad.
Diolchwyd i Marian Eames gan Myfanwy Jarman. Cynhelir cyfarfod nesa'r gangen ar 7 Hydref.

---

# PYTIAU

GWELLHAD BUAN: Yn raddol mae John Ewart Jones yn dal i wella wedi'r llawdriniaeth a gafodd tri mis yn ol. Bydd yn dda gan aelodau Capel Ebenezer ei gael yn ol i godi'r canu yno cyn bo hir.

GWIBIO: Aeth saith deg o aelodau Cymdeithas Minny Street ar wibdaith i Ferthyr Tudful ar y Sadwrn olaf ym Medi. Ac roedd pawb wrth eu bodd yn cael eu tywys o gwmpas yr hen dref ddiddorol gan Llewellyn Walters, Seiriol Davies a'r Dr.Glyn Jones i glywed am fawrion ein gorffennol fel Dic Penderyn, y brodyr Berry, Joseph Parry, y Crawshays a Howard Winstone. Uchafbwynt y prynhawn oedd cael gwrando ar Mrs.Lily Richards, o Ysgol Rhydfelen gynt, yn chwarae'r organ yng Nghapel Soar.

# LLONGYFARCH

PENBLWYDD HAPUS: Llongyfarchiadau i Miss Gwyneth Vaughan Jones ar gyrraedd ei deg-a-phedwar-ugain oed. I ddathlu'r achlysur anrhegwyd Miss Jones gan Gymdeithas Cyn-fyfyrwyr Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth. Hi bellach yw aelod hynaf y Gymdeithas yng Nghaerdydd - ymunodd a'r Coleg ym 1913. Cyflwynwyd siec iddi gan Dr.Alun Oldfield Davies yng nghinio blynyddol y Gymdeithas yn Sain Ffagan.

Bu Miss Jones am flynyddau yn Brifathrawes Ysgol Uwchradd y Merched, Y Barri, gan ddilyn yr un llwybr â'i thad, Mr.Edgar Jones a fu'n Brifathro Ysgol y Bechgyn. Mae'n byw yn awr ym Mhorth-y-Castell, Y Barri, ac mae ei hegni a'i brwdfrydedd yn codi cywilydd ar lawer o gyfeillion hanner canrif yn iau na hi!

Dymuniadau gorau iddi.


TAFLEN

LLYFRAU,
CARDIAU, PAPURAU,
RECORDIAU, CASETIAU.

Canolfan yr Urdd,
Heol Conwy,
Caerdydd. 27530.

Ar agor tan 7 o'r gloch ([illegible] Sadwrn)

CYFAMODIR POB ELW I
GANOLFAN YR URDD, CAERDYDD


CLYCHAU PRIODAS: Llongyfarchiadau i golofnydd barddonol y Dinesydd, Emyr Lewis ar ei ddyweddiad ag Angharad Dafis, Llandudoch. Mae Emyr, mab Kynric a Bethan Lewis, yn gyfreithiwr yng nghwmni Morgan, Bruce & Nicholas, Pontypridd, ac mae Angharad, merch Douglas a Diddanwy Davies, Llandudoch, bellach yn chwilio am waith yng Nghaerdydd. Mae darllenwyr y Dinesydd yn gyfarwydd a gwaith llenyddol Emyr ac edrychwn ymlaen at groesawu awdur arall i'n plith - enillodd Angharad y wobr gyntaf yn Eisteddfod Genedlaethol Abertawe gyda'i nofel "Rhian". Llongyfarchiadau calonnog i'r ddau.

# CROESO

TAFOD ELAI: Llongyfarchiadau i fwrdd golygyddol Tafod Elâi ar gynhyrchu rhifyn cyntaf papur bro newydd i gylch Taf-Elâi a ddaeth i law wrth i'r Dinesydd fynd i'r wasg.

Cadeirydd a Golygydd Cyffredinol y papur yw Emlyn Davies ac yn y papur gwahoddodd gyfraniadau fel hyn: "Un arwydd pendant o gyflwr unrhyw babur bro yw ansawdd ei golofn lythyrau. Mae casgliad bywiog o lythyrau pigog, cwynfanllyd, rhagfarnllyd, canmoliaethus, sebonllyd, anwybodus, di-enw neu wedi eu harwyddo yn hanfodol i barhad y Tafod. Gwahoddir chi i anfon unrhyw ohebiaeth ..."

Dymunwn hir oes a phob llwyddiant i'r Tafod!

# CYDYMDEIMLAD

MARW DISYMWTH
YR ATHRO EMERITUS
T.P.WILLIAMS

CAFODD AMRYW ohonom a fu'n astudio Almaeneg yng Ngholeg y Brifysgol, Caerdydd, gryn ysgytwad wrth glywed am farwolaeth yr Athro T.P.Williams.

Mae'n anodd iawn inni sy'n ei gofio mor fyw fel darlithydd ar Goethe yn y coleg i sylweddoli iddo yntau fynd at ei wobr mor fuan wedi'i ymddeoliad. Mewn cyfnod pan nad oedd sôn am adrannau Almaeneg yn dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, anogai ef inni ysgrifennu'n traethodau llenyddol yn ein hiaith, a ni, nid fe, oedd yn synnu pa mor hawdd oedd hi i drosglwyddo i'r Gymraeg ein daansoddiad o lenyddiaeth fawr yr Almaen.

Roedd awyrgylch deuluol hollol i'r Adran Almaeneg yng Ngholeg y Brifysgol, Caerdydd, ugain mlynedd yn ôl ac yntau gyda'i wraig Mollie, a oedd yn ffefryn gyda ni'r myfyrwyr, oedd yn bennaf gyfrifol bod teimlad mor dwymgalon rhwng y darlithwyr a'r myfyrwyr yn yr adran.

Hanai o Sir Fôn ac roedd yn aelod yn Minny St., ac er mai Albanes o'r iawn ryw oedd ei wraig, ymfalchiai yn ei wreiddiau Cymraeg a'u harddel gyda pharch o'n blaen ni fyfyrwyr.

Heddwch i'w lwch.


SHERMAN

CWMNI HWYL A FFLAG
yn cyflwyno

BEDLAM BEDLAM BEDLAM BEDLAM

gan Gruffudd Jones.
THEATR Y SHERMAN
Hydref 30 - Tachwedd 2
am 8.00 o'r gloch
Matinee Hydref 31 a Tachwedd 1
am 10.00 y bore.
Swyddfa docynnau: 30451/2.



THEATRIG

Blodeuwedd
Saunders Lewis
1893-1985

CAERDYDD
Canolfan Celfyddydau CHAPTER
☎ (0222) 396061

Dydd Iau 31 Hydref, Dydd Gwener 1
a Dydd Sadwrn 2 Tachwedd
am 8.00pm




Argraffwyd gan Fingerprints (TU), Caerdydd. FP.1478